| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Y Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Rhagfyr 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Mohammed Mehmet, Swyddog Cofrestru Etholiadol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Gareth Evans, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol** |
| **Teitl:** | **Adolygu Rhanbarth Pleidleisio a Mannau Pleidleisio** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i rannu ei ardal yn ranbarthau pleidleisio a dynodi man pleidleisio ar gyfer pob rhanbarth. Mae hefyd yn ddyletswydd statudol i barhau i adolygu'r trefniadau hyn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried canlyniad proses ymgynghori gyhoeddus ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor er mwyn cwblhau'r broses adolygu statudol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor Sir yn cytuno ar y trefniant presennol ar gyfer rhanbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio fel y manylir yn Atodiad 1.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a agorwyd ar 3 Hydref, 2014 yn gwahodd sylwadau gan etholwyr a phartïon â diddordeb ar y trefniadau presennol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 3 Tachwedd ac mae'r ymatebion a gafwyd yn cael eu dangos yn Atodiad 2.

4.2 Mae gan Sir Ddinbych 30 Rhanbarth Etholiadol wedi'u rhannu'n 68 o ardaloedd pleidleisio sy'n cael eu gwasanaethu gan 65 o fannau pleidleisio. Mae'n ymddangos bod y lleoliad a'r cyfleusterau a ddarperir gan y trefniadau presennol yn cael eu derbyn yn dda gan yr etholwyr flwyddyn ar ôl blwyddyn gydag ychydig iawn o gwynion yn cael eu derbyn o ran eu hygyrchedd neu leoliad.

4.3 O ganlyniad, yr egwyddorion sy'n sail i ymagwedd y Cyngor tuag at ranbarthau etholiadol a mannau pleidleisio a amlygwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd:

(a) Cadw'r rhwydwaith presennol o ranbarthau, lleoedd a gorsafoedd pleidleisio er mwyn sicrhau cyn belled â bo’n bosibl fod gan bob etholwr gyfleusterau rhesymol ar gyfer pleidleisio dan yr amgylchiadau.

(b) Sicrhau, cyn belled ag y bo’n ymarferol, bod lleoedd pleidleisio yn hygyrch i bobl ag anableddau.

(c) Rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strwythur presennol allu dangos cefnogaeth eang o fewn y rhanbarth pleidleisio. Er enghraifft, cefnogaeth o leiaf 30 o etholwyr cofrestredig llywodraeth leol, maen prawf a ddewiswyd gan ei fod yn cyd-fynd â lefel isafswm y sylwadau mae'r Comisiwn Etholiadol ei angen i alw am adolygiad o ranbarthau a llefydd pleidleisio.

4.4 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu trafod isod.

<u>Pryderon Cyngor Tref Dinbych</u>

4.5 Mae Cyngor Tref Dinbych wedi mynegi pryderon nad oes unrhyw orsaf bleidleisio yn y ward Ganolog ar gyfer etholwyr sy'n byw yn hanner isaf o Stryd y Dyffryn / Townsend, ac o'r pellter cysylltiedig o'r ardal honno o Ddinbych i orsaf bleidleisio Eirianfa yn ward Ffatri.

<u>Ymateb i Bryderon Cyngor Tref Dinbych</u>

4.6 I ddelio â phryderon y Cyngor Tref byddai angen hollti rhanbarth pleidleisio BC sydd ar hyn o bryd yn cynnwys rhanbarth etholiadol gyfan Canol Dinbych i ddau ranbarthau pleidleisio ar wahân, un ar gyfer rhan uchaf y rhanbarth a rhanbarth newydd ar gyfer y rhan is yn ardal Townsend / Stryd y Dyffryn. Y pwynt cytbell i rannu'r rhanbarth yn ddau ranbarth pleidleisio ar wahân fyddai defnyddio Lôn y Post a Peakes Lane gyda phob un o'r eiddo preswyl yn y strydoedd a ddangosir yn Atodiad 3 yn cael eu rhoi yn y rhanbarth pleidleisio newydd gyda'r bwriad o leoli gorsaf bleidleisio o fewn yr ardal honno.

4.7 Byddai hyn yn creu cofrestr drefol fach gyda 241 eiddo preswyl gydag etholaeth bresennol o 414 gan gynnwys 52 o bleidleiswyr drwy'r post ac felly etholaeth bleidleisio ar gyfer yr orsaf o 362. Byddai hyn yn cymharu â 983 o etholwyr ar y gofrestr bresennol ar ôl ac yn dal i bleidleisio yn Eirianfa. Nid yw rhanbarth etholiadol mor fach yn ymddangos i fod yn ymarferol ac mae’n sylweddol llai na'r holl ranbarthau pleidleisio eraill yn y dref. Hefyd byddai’r broblem o ddod o hyd eiddo cyhoeddus / cymunedol addas o fewn y rhanbarth pleidleisio newydd i leoli’r orsaf bleidleisio.

4.8 Yn hanesyddol mae’r orsaf bleidleisio ar gyfer yr ardal hon bob amser wedi ei lleoli yn rhan uchaf y rhanbarth etholiadol. Cyn i Eirianfa gael ei defnyddio fel gorsaf bleidleisio roedd yr holl etholwyr yn pleidleisio yn Neuadd y Sir (Llyfrgell Dinbych erbyn hyn), Sgwâr y Neuadd. Mae achos cryf i’w bledio mai Eirianfa yw'r cyfleuster cymunedol naturiol ar gyfer y rhanbarth etholiadol ac yn cefnogi'r syniad o’r etholwyr sy'n dod i ganol y dref ar y diwrnod pleidleisio.

4.9 Mae Atodiad 3 hefyd yn rhestru'r nifer etholwyr ar gyfer pob un o'r rhanbarthau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio presennol yn nhref Dinbych. Mae'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau ers 2007 yn nodi nad yw lleoliad Eiranfa yn effeithio ar ffigurau'r nifer a bleidleisiodd, sydd yn debyg i'r gorsafoedd eraill o fewn y dref. Dylid nodi hefyd bod canran y pleidleiswyr drwy'r post yng Nghanol Dinbych yn is na'r holl ranbarthau pleidleisio arall yn Ninbych, gan hefyd ddynodi nad yw lleoliad Eirianfa yn ffactor niweidiol.

4.10 Byddai cadw gorsaf bleidleisio ychwanegol yn dod â chostau cynyddol o tua £650 ar gyfer bob etholiad a gynhelir yn yr orsaf newydd. Byddai angen i'r Cyngor Sir dalu'r costau hyn ar gyfer etholiadau i'r cyngor sir; byddai angen i Gyngor Tref Dinbych dalu'r costau ar gyfer etholiadau i'r cyngor tref.

4.11 Dylid nodi, er bod rhai eiddo o fewn rhanbarth Canol Dinbych yn agosach yn ddaearyddol i orsafoedd pleidleisio yn Ysgol Frongoch ac Ysgol Uwchradd Dinbych / Canolfan Hamdden Dinbych, y ddau leoliad yma yw'r gorsafoedd pleidleisio a ddyrannwyd ar gyfer Rhanbarth Etholiadol Dinbych Isaf.

Casgliad

4.12 Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar strwythur y rhanbarthau pleidleisio seneddol cyfredol ac, ac eithrio'r sylwadau ar Ward Canol Dinbych, datgelodd yr ymatebion ar y mannau pleidleisio bod yr ymatebwyr yn fodlon ar y mannau pleidleisio presennol. Mae Sir Ddinbych â 3 etholaeth seneddol ac mae'r 3 Swyddog Canlyniadau Dros Dro i gyd wedi cadarnhau eu bod yn fodlon ar y trefniadau presennol. Mae goblygiadau gwneud newidiadau i Ward Canol Dinbych yn cael sylw uchod ac yn unol â hynny, nid oes unrhyw newidiadau yn cael eu hargymell.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae darparu rhanbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio digonol yn bwysig i etholwyr sir Ddinbych i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ac felly yn cynorthwyo'r awdurdod i gadw ei gysylltiadau â'r Gymuned.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau yn deillio o'r adolygiad a'r argymhellion ar wahân i amser staff.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Nid yw'r adroddiad hwn a'i argymhellion yn cyflwyno newidiadau na pholisi newydd o ran darparu rhanbarthau a mannau pleidleisio. Nid oes unrhyw AEC wedi'i gwblhau.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Roedd y broses ymgynghori yn ymwneud â rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r adolygiad ar wefan y Cyngor ac i bartïon â diddordeb posibl gan gynnwys cynghorwyr sir, Cynghorau dinas, tref a chymuned, aelodau Seneddol lleol, Aelodau Cynulliad etholaethol a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae goblygiadau cost sy'n deillio o'r adolygiad yn fach iawn a byddant yn cael eu cynnwys o fewn yr adnoddau presennol.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gadarnhau ei drefniadau i gydymffurfio â dyletswyddau deddfwriaethol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae adran 18C(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006.